**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS

Cadeirydd

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Huw.Irranca-Davies@senedd.cymru

28 Mawrth 2022

Annwyl Huw,

Yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyng-sefydliadol, hoffwn eich hysbysu y cynhaliwyd cyfarfod pellach o'r Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ar 21 Mawrth.

Yn bresennol yn y cyfarfod oedd George Eustice AS y DU (cadeirydd), yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, Llywodraeth y DU; Victoria Prentis AS y DU, y Gweinidog Gwladol, Defra, Llywodraeth y DU; Mairi Gougeon ASA, Ysgrifennydd y Cabinet dros Faterion Gwledig a'r Ynysoedd, Llywodraeth yr Alban; Lorna Slater ASA (cadeirydd), y Gweinidog dros Sgiliau Gwyrdd, Yr Economi Gylchol, a Bioamrywiaeth, Llywodraeth yr Alban; Edwin Poots ACD, y Gweinidog Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig, Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon; roedd David TC Davies AS y DU, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru a Connor Burns AS y DU, Gweinidog Gwladol Gogledd Iwerddon hefyd yn bresennol.

Yn y cyfarfod trafodwyd y sefyllfa ofnadwy yn Wcráin a'r effeithiau ar gostau cynhyrchu gwrtaith, porthiant a phrosesu pysgod gwyn. Codwyd pryderon ynghylch teithio a chwarantin o ran anifeiliaid anwes hefyd.

Cyflwynodd Llywodraeth y DU ei chynigion ar gyfer dynodiadau safleoedd gwarchodedig a amlinellwyd yn ei Phapur Gwyrdd ar Natur. Rhoesant yr wybodaeth ddiweddaraf hefyd am gyhoeddi Fframweithiau Cyffredin a chraffu arnynt.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Wrth drafod paratoadau ar gyfer rheoli ffiniau, pwysais ar Lywodraeth y DU am sicrwydd y byddai'n ymgynghori â'r gweinyddiaethau datganoledig cyn gynted â phosibl wrth ddrafftio unrhyw ddeddfwriaeth bellach angenrheidiol a'u cynnwys mewn trafodaethau ynghylch ariannu seilwaith.

Nododd pob gweinyddiaeth benderfyniad Llywodraeth y DU i ganiatáu eithriad i Ddeddf y Farchnad Fewnol ar gyfer plastigau untro. Ar ran y Gweinidog Newid Hinsawdd, ymunais â'm cyd-Aelodau yn Llywodraeth yr Alban i nodi siom ynghylch natur gul yr eithriad.

Codwyd sawl eitem o dan Unrhyw Fater Arall, gan gynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf am y cynigion ar gyfer Partneriaeth Data Bwyd a Thryloywder, trafodaethau'n ymwneud â'r arfer o ddefnyddio pysgod mewn porthiant pysgod ar gyfer eogiaid ym maes dyframaethu, a chododd Gweinidogion yr Alban bryderon ynghylch materion treth y Cynllun Dychwelyd Ernes.  Estynnais wahoddiad hefyd i'r aelodau i Sioe Frenhinol Cymru ym mis Gorffennaf.

Bydd hysbysiad yn cael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth y DU yn

https://www.gov.uk/government/publications/communique-from-the-inter-ministerial-group-for-environment-food-and-rural-affairs.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith ac at Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg.  Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh.  Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Yn gywir,

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.